The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn o'r cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod ffeil** | EN020015 |
| **Prosiect** | Cysylltiad Gogledd Cymru |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | 15 Mawrth 2018 |
| **Cyfarfod â** | National Grid |
| **Lleoliad** | Temple Quay House, Bryste |
| **Yn bresennol** | **Yr Arolygiaeth Gynllunio**<br>Chris White – Arweinydd Cynllunio Seilwaith<br>Hefin Jones – Rheolwr Achos<br>Siân Evans – Swyddog Achos<br>Hannah Pratt – Uwch Gynghorydd AEA a Hawliau Tir<br>Helen Lancaster - Uwch Gynghorydd AEA a Hawliau Tir<br>Alison Down – Cynghorydd AEA a Hawliau Tir<br>**National Grid**<br>Ken Guest - Rheolwr DCO<br>Jacqui Fenn – Uwch Swyddog Caniatadau |
| **Amcanion y cyfarfod** | Diweddariad ar y prosiect |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

**Cyflwyniad**

Cyflwynodd National Grid (yr Ymgeisydd) a'r Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) eu hunain a'u rolau priodol. Amlinellodd yr Arolygiaeth ei pholisi ar fod yn agored a sicrhawyd fod y sawl a oedd yn bresennol yn deall y bydd unrhyw faterion a drafodir a chyngor a roddir yn cael eu cofnodi a'u gosod ar wefan yr Arolygiaeth o dan a51 Deddf Cynllunio 2008 (DC2008). Ar ben hynny, eglurwyd na fydd unrhyw gyngor a roddir yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r National Grid (neu eraill) ddibynnu arno.

**Diweddariad ar y Prosiect**

Dywedodd yr Ymgeisydd eu bod yn parhau i ymgysylltu â thirfeddianwyr a rhanddeiliaid i fireinio'r cais, fodd bynnag, nid oes unrhyw newidiadau sydd wedi sbarduno unrhyw ymgynghori pellach. Dywedodd yr Ymgeisydd eu bod yn parhau i fod mewn trafodaethau â thirfeddiannwr mewn perthynas ag opsiynau A a B, fodd bynnag, maen nhw'n cynghori, ni waeth beth fo canlyniad y trafodaethau hyn, bod y ddau opsiwn yn debygol o aros yn y cais.

Dywedodd yr Ymgeisydd eu bod, ar hyn o bryd, yn bwriadu cyflwyno eu cais ddiwedd mis Mehefin 2018.

**Datganiad Amgylcheddol**

Dywedodd yr Ymgeisydd fod Datganiad Amgylcheddol drafft wedi'i rannu â rhanddeiliaid. Derbyniwyd rhywfaint o adborth defnyddiol hyd yma a disgwylir adborth pellach.

**Datganiadau o Dir Cyffredin**

Dywedodd yr Ymgeisydd, wrth gyflwyno eu cais, y byddant yn darparu tabl crynodeb o'r cynnydd a wneir ar eu Datganiadau o Dir Cyffredin. Bydd cyfeiriad at hyn yn eu Datganiad Cynllunio. Dywedodd yr Ymgeisydd eu bod yn bwriadu darparu Datganiad Cyffredinrwydd hefyd yn ystod yr Archwiliad.

Yn ogystal, dywedodd yr Ymgeisydd y byddant yn cyflwyno 'Canllaw i'r Cais', a fydd yn cael ei ddiweddaru trwy gydol yr Archwiliad gyda hyperddolenni i ddogfennau ar wefan yr Arolygiaeth.

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

Dywedodd yr Arolygiaeth y byddai eu sylwadau ar yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael eu hanfon at yr Ymgeisydd yn fuan. Dywedodd yr Arolygiaeth fod eu sylwadau yn ymwneud â manylion ac os bydd yr Ymgeisydd yn mynd i'r afael â'r rhain yn yr adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a gyflwynir gyda'r cais, gellir lleihau nifer y Cwestiynau Ysgrifenedig ar faterion yn ymwneud a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Gofynnodd yr Arolygiaeth p'un ai yr ymgynghorwyd â Natural England ar yr effeithiau posibl ar Ardal Gwarchodaeth Arbennig Bae Lerpwl, gan fod yr ardal hon o fewn dyfroedd tiriogaethol Lloegr yn ogystal â Chymru.

**Gofynion cyflwyno**

Dywedodd yr Ymgeisydd y byddent yn cyflwyno dau gopi caled o ddogfennau'r cais a saith USB. Dywedodd yr Arolygiaeth y byddant yn gofyn am gopïau caled o ddogfennau penodol ar bob dyddiad cau, os bydd angen. Gofynnodd yr Arolygiaeth i ffotogyfosodiadau gael eu darparu mewn maint A3, yn ogystal â'r maint priodol i'w weld ar y safle (os bydd hyn yn wahanol).

**Cyfieithu**

Cadarnhaodd yr Arolygiaeth y dylai dogfennau'r cais a gyflwynir yn Gymraeg gael eu cyflwyno'r un pryd â'r rhai a gyflwynir yn Saesneg er mwyn cael eu derbyn.

Cadarnhaodd yr Arolygiaeth y byddai unrhyw sylwadau a wnaed yn Gymraeg yn cael eu cyfieithu at ddefnydd mewnol yr Awdurdod Archwilio yn unig; ni fyddai'r cyfieithiadau ar gael yn gyhoeddus a dylai partïon ddarparu eu cyfieithiad eu hunain.

**Lleoliadau ar gyfer Gwrandawiadau**

Dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr Ymgeisydd y byddai o gymorth pe baent yn gallu cwmpasu lleoliadau posibl ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol a gwrandawiadau. Yn y cyfarfod diwethaf, dywedodd yr Arolygiaeth fod Horizon (yr ymgeisydd ar gyfer prosiect Wylfa Newydd) yn asesu Maes Sioe Môn o ran ei addasrwydd fel lleoliad ar gyfer gwrandawiadau. Rhoddodd yr Arolygiaeth y wybodaeth ddiweddaraf i'r Ymgeisydd, sef nad oedd Horizon o'r farn bod hwn yn lleoliad hwn yn addas oherwydd ei bellter o'r briffordd.

**Archwiliad Safle**

Dywedodd yr Arolygiaeth y byddai o gymorth pe bai'r Ymgeisydd yn gallu paratoi awgrymiad o ran llwybr ar gyfer gweld safle'r Datblygiad a Gynigir o olygfannau cyhoeddus. Byddai awgrymiad o ran llwybr ar gyfer unrhyw Archwiliad Safle â Chwmni yn ddefnyddiol hefyd.

**Rhyngweithio rhwng cyflwyniadau Horizon a National Grid**

Dywedodd yr Arolygiaeth nad yw dyddiad Cyfarfod Rhagarweiniol Wylfa Newydd yn hysbys hyd yn hyn oherwydd nid yw'r cais wedi'i gyflwyno na'i dderbyn hyd yn hyn.

Dywedodd yr Arolygiaeth wrth yr Ymgeisydd mai mater iddynt hwy ei benderfynu yw amseriad cyflwyno eu cais, ond fe'u hatgoffwyd y byddai o gymorth i bob parti pe cynhelir bwlch rhwng yr archwiliadau ar gyfer pob cais er mwyn osgoi gwrthdaro o ran gwrandawiadau a therfynau amser.

**Unrhyw Fusnes Arall**

Trefnir y telegynhadledd nesaf ar gyfer 12 Ebrill 2018. Bydd yr Ymgeisydd yn cysylltu â'r Arolygiaeth os na fyddant yn ystyried y bydd cynnal y cyfarfod yn angenrheidiol.